# Fluoride/fluoridation

Water fluoridation is the practice of adding fluoride compounds to the public drinking water supply with the intended purpose of reducing tooth decay in the general population.

All untreated sources of drinking water, called raw water, will contain fluoride as part of its natural mineral content and this is not removed during the treatment processes. However the natural content in the Welsh Water supply area is well below the level to which fluoride would be added for dental purposes. Naturally occurring levels are typically less than 50 microgrammes/litre.

## Who decides if my drinking water is fluoridated?

In the past, local authorities could ask water companies to fluoridate drinking water, but companies could decline to do so. Section 58 of the Water Act 2003 amended the Water Industry Act 1991 so that water companies now have to fluoridate drinking water supplies if asked to do so by a Strategic Health Authority (SHA) or the Welsh Assembly Government following local consultation.

Currently fluoride is not added to drinking water at any of Welsh Water's water treatment works nor is the necessary legislation in force yet in Wales. The question of whether fluoride, or any other additive deemed to provide a benefit to health, should be added to tap water is a matter that should be decided by health authorities and the Government. If the addition of fluoride to drinking water becomes a requirement by law, then Welsh Water will, of course, meet our legal obligations.

## Need more information or advice?

dwrcymru.com

0800 052 0130

You can also visit the Drinking Water Inspectorate website at **dwi.gov.uk**

Dŵr Cymru
Welsh Water

# Fflworid/fflworeiddiad

Fflworeiddiad yw'r arfer o ychwanegu cyfansoddion fflworid at ddŵr yfed cyhoeddus gyda'r nod o ostwng pydredd dannedd ymysg y boblogaeth yn gyffredinol.

Bydd dŵr yfed heb ei drin yn cynnwys fflworid fel rhan o'r mwynau naturiol ac ni fydd y prosesau trin dŵr yn ei waredu. Fodd bynnag, mae'r fflworid naturiol o fewn ardal gyflenwi Dŵr Cymru yn llawer is na'r hyn a ychwanegir at ddibenion iechyd deintyddol. Fel arfer, mae lefelau naturiol yn llai na 50 microgram/litr.

## Pwy sy'n penderfynu rhoi fflworid yn y dŵr yfed?

Yn y gorffennol, gallai awdurdodau lleol ofyn cwmnïau dŵr i fflworideiddio dŵr yfed, ond gallai cwmnïau wrthod gwneud hynny. Addaswyd Deddf Diwydiant Dwr 1991 gan Adran 58, Deddf Dŵr 2003, i orfodi cwmnïau dŵr i fflworideiddio dŵr yfed o dderbyn cais i wneud hynny gan yr awdurdod iechyd strategol neu Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn dilyn ymgynghoriad lleol.

Ar hyn o bryd ni ychwanegir fflworid i'r dŵr yfed yn unrhyw un o weithfeydd trin dŵr Dŵr Cymru ac nid yw'r ddeddfwriaeth mewn grym yng Nghymru hyd yma. Mater i'r awdurdodau iechyd a'r Llywodraeth yw penderfynu os am ychwanegu fflworid at ddŵr yfed ai peidio, neu unrhyw fesur arall er lles iechyd. Os cyflwynir deddfwriaeth yn mynnu ychwanegu fflworid at ddŵr yfed, yna bydd Dŵr Cymru yn naturiol yn diwallu ei rwymedigaethau cyfreithiol.

### Angen cyngor neu wybodaeth?

dwrcymru.com

0800 052 0130

Neu ewch i wefan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed sef **dwi.gov.uk**

Dŵr Cymru Welsh Water